



**DYFED ARCHAEOLOGICAL TRUST  
NEWSLETTER SPRING 2012**

**NEWYDDLLEN GWANWYN 2012  
YMDDIRIEDOLAETH ARCHAEOLEGOL  
DYFED**



[www.dyfedarchaeology.org.uk](http://www.dyfedarchaeology.org.uk)  
[www.archaeolegdyfed.org.uk](http://www.archaeolegdyfed.org.uk)

Dyfed Archaeological Trust is an independent organisation dedicated to the effective protection, investigation, recording and promotion of the historic environment.

Dyfed has a highly motivated professional workforce with a wide range of skills and experience. This is complemented by long established contacts and partnerships with external specialists enabling Dyfed to offer extensive consultancy and other archaeological services.

The Shire Hall, Carmarthen Street, Llandeilo,  
Carmarthenshire SA19 6AF

01558 823121

Email Menna Bell—[M.bell@dyfedarchaeology.org.uk](mailto:M.bell@dyfedarchaeology.org.uk)

(Limited Company No. 1198990—Registered Charity No. 504616)

[www.dyfedarchaeology.org.uk](http://www.dyfedarchaeology.org.uk)

Production of this  
newsletter was grant-  
aided by Cadw



Cynhyrchwyd y  
newyddlen hon gyda  
chymorth grant gan  
Cadw

Cover: Modern aerial view  
of Templeton Airfield, Pem-  
brokehire.

Clawr: Golwg gyfoes o'r  
awyr ar Faes Awyr  
Tredeml, Sir Benfro.

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yw corff annibynnol sy'n ymroi i ddiogelu,  
ymchwilio, cofnodi a hybu'r amgylchedd hanesyddol yn effeithiol.

Mae gan Dyfed weithlu proffesiynol ac uchel eu cymhelliant syd ag amrywiaeth mawr  
o sgiliau of phrofiad. Ategir hynny â chysylltiadau a phartneriaethau—sy'n bod ers  
tro byd—ag arbenigwyr allanol sy's fodd i Dyfed gynnig gwasanaethau ymgynhori a  
gwasanaethau archaeolegol eraill.

Neuadd y Sir, Stryd Caerfyrddin, Llandeilo,

Sir Gaerfyrddin SA19 6AF

01558 823121

Ebost Menna Bell – [M.bell@dyfedarchaeology.org.uk](mailto:M.bell@dyfedarchaeology.org.uk)

(Cwmni Cyfyngedig 1198990 - Elusen

Gofrestredig 504616)

[www.archaeolegdyfed.org.uk](http://www.archaeolegdyfed.org.uk)

## TWENTIETH-CENTURY MILITARY SITES

The four Welsh Archaeological Trusts in partnership with Cadw and the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales are undertaking a survey of twentieth-century military sites in Wales. The first year of this project has almost been completed, and therefore this Newsletter is devoted to this project, reviewing work completed and previewing future work.

Military sites are testimony to the United Kingdom's turbulent twentieth-century history. Wales possesses numerous military remains from twentieth-century international conflicts: WW1, WW2 and the Cold War. Unlike elsewhere in Europe these sites were untouched by the ravages of invasion and war, but many were demolished through clearance schemes and more have disappeared as a result of development and agricultural improvement. As twentieth-century military sites pass from the realm of memory to that of archaeology and history it is vital that they are recorded and the best examples protected and preserved in the same manner that we treat Iron Age hill-forts and medieval castles. The survey will assess what survives and will make recommendations for statutory protection of key surviving structures.



This Blister Hangar at Brawdy Airfield was also a gunnery trainer, with instruments and rigs inside to simulate conditions for combat.

Roedd yr Awyrendy Pothellog hwn ym Maes Awyr Breudeth hefyd yn hyfforddwr gynyddiaeth, ag offer a rigiau y tu mewn iddo i efelychu amodau brwydro.

## SAFLEOEDD MILWROL YR UGEINFED GANRIF

Ar y cyd â Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, mae'r pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol yn cynnal arolwg o safleoedd milwrol yr ugeinfed ganrif yng Nghymru. Mae blwyddyn gyntaf y prosiect hwn bron â dod i ben, felly mae'r Newyddlen hon yn ymroddedig i'r prosiect hwn, gan adolygu'r gwaith a gwblhawyd a rhoi cipolwg ar waith yn y dyfodol.

Mae safleoedd milwrol yn dystiolaeth o hanes terfysglyd y Deyrnas Unedig yn ystod yr ugeinfed ganrif. Mae gan Gymru nifer o olion milwrol o wrthdaro rhyngwladol yn ystod yr ugeinfed ganrif: Y Rhyfel Byd Cyntaf, Yr Ail Ryfel Byd a'r Rhyfel Oer. Yn wahanol i leoedd eraill yn Ewrop, ni chyffyrddwyd y safleoedd hyn gan ddifrod goresgyniad a rhyfel, ond dymchwelwyd llawer ohonynt drwy gynlluniau clirio ac mae rhagor ohonynt wedi diflannu o ganlyniad i ddatblygu a gwella amaethyddol. Wrth i safleoedd milwrol yr ugeinfed ganrif symud o fyd y cof i archaeoleg a hanes, mae'n hanfodol y cânt eu cofnodi ac y caiff yr enghreifftiau gorau eu hamddiffyn a'u cadw yn yr un modd ag yr ydym yn trin bryngaerau o'r Oes Haearn a chestyll canoloesol. Bydd yr arolwg yn asesu'r hyn sydd wedi goroesi ac yn gwneud argymhellion ar gyfer amddiffyn strwythurau allweddol sy'n weddill yn statudol.

## Airfields

During 2011-12, airfields, the largest and most sophisticated military sites to be established, were investigated in southwest Wales as part of a pan-Wales project undertaken by the four Welsh Archaeological Trusts. Early aerodromes, part of the Royal Navy Air Service (RNAS), for airships and float-planes were constructed in 1914-18 during WW1. There was a programme of airfield expansion under the RAF in the 1920s and 30s, but it was during WWII (1939-45) that saw a large increase in the number and complexity of airfields, with about 34 built in Wales, of which about 18 were in southwest Wales. The number of airfields contracted dramatically after WW2, with the survivors specialising in training or, like Brawdy near St Davids, equipped to accommodate V-Bombers during the Cold War (1946-89).

During 2012-13, the dispersed facilities of airfields, including anti-aircraft emplacements, bombing decoys, fuel depots and communication stations will be investigated.

Control tower or watch office at Carew Cheriton Airfield. This unusual design has been restored by an enthusiastic local group and is now open to the public.


Tŵr rheoli neu swyddfa wylio ym Maes Awyr Caeriw. Adferwyd y dyluniad anarferol hwn gan grŵp brwdfrydig lleol ac mae bellach ar agor i'r cyhoedd.



## Meysydd Awyr

Yn ystod 2011-12, archwiliwyd meysydd awyr, sef y safleoedd milwrol mwyaf a mwyaf soffistigedig a sefydlwyd, yn ne-orllewin Cymru fel rhan o brosiect Cymru gyfan a gynhaliwyd gan y pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol yng Nghymru. Adeiladwyd erodromau cynnar ar gyfer awyrlongau ac awyrennau arnofio, sef rhan o Wasanaeth Awyr y Llynges Frenhinol (RNAS), ym 1914-18 yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Cynhaliwyd rhaglen ehangu meysydd awyr dan y Llu Awyr Brenhinol (RAF) yn y 1920au a 30au, ond yn ystod yr Ail Ryfel Byd (1939-45) y cynyddodd nifer a chymhlethdod meysydd awyr, gan adeiladu tua 34 ohonynt yng Nghymru, yr oedd tua 18 ohonynt yn ne-orllewin Cymru. Lleihaodd nifer y meysydd awyr yn sylweddol ar ôl yr Ail Ryfel Byd, gyda'r rhai a oroesodd yn arbenigo mewn hyfforddi neu, fel Breudeth ger Tyddewi, yn cael eu cyfarparu i letya Awyrennau Bomio V yn ystod y Rhyfel Oer (1946-89).

Yn ystod 2012-13, caiff cyfleusterau gwasgaredig meysydd awyr eu harchwilio, gan gynnwys safleoedd gwrthawyrennau, deniadau bomio, storfeydd tanwydd a gorsafoedd cyfathrebu.




Pembroke Dock was the largest flying boat base in the world. Sunderland flying boats operating from here flew anti-submarine reconnaissance patrols and rescued crews from torpedoed ships during the battle of the Atlantic. This 1943 aerial photograph shows the two unique flying boat hangars camouflaged to resemble terrace housing and a number of Sunderlands in the dockyard. Photograph courtesy of John Evans.

Doc Penfro oedd y ganolfan awyrennau môr mwyaf yn y byd. Roedd awyrennau môr Sunderland a oedd yn gweithredu o'r fan hon yn hedfan patrolau rhagchwilio am longau tanfor ac yn achub criwiau o longau a drawyd gan dorpidos yn ystod rhyfel yr Iwerydd. Mae'r llun hwn o'r awyr o 1943 yn dangos dau awyrendy unigryw ar gyfer awyrennau môr a guddliwiwyd i edrych yn debyg i dai teras, ynghyd â nifer o awyrennau môr Sunderland yn yr iard longau. Ffotograff trwy garedigrwydd John Evans.



Not all airfield buildings are derelict. The top photograph shows what was once part of a complex of training buildings at Haverfordwest Airfield; this one was used for training gunners in an aircraft gun turret.

Upper centre. Bomb store at Pembrey Airfield. The concrete inverted V-shaped revetments indicate the height and shape of the earth banks which would have encircled the building, the banks built to deflect the blast should the bomb store be attacked.



Lower centre. Pillbox built into a hedge to defend Angle airfield

Bottom: Battle Headquarters at Templeton Airfield. This underground bunker was the last line of defence on the airfield and only was meant to be occupied when the airfield was under attack.



Nid yw adeiladau pob maes awyr yn adeflledig. Mae'r ffotograff uchaf yn dangos yr hyn a oedd yn arfer bod yn rhan o gyfaddilad o adeiladau hyfforddi ym Maes Awyr Hwlfordd; defnyddiwyd yr un hwn i hyfforddi gynwyr mewn tyred gynnu awyren.

Canol uchaf. Storfa fomiau ym Maes Awyr Pen-bre. Mae'r gwrthgloddiau concrit siâp V gwrthdroedig yn dangos uchder a siâp y cloddiau pridd a fyddai wedi amgylchynu'r adeilad, sef y cloddiau a adeiladwyd i allwyo'r ffrwydrad pe byddai rhywun yn ymosod ar y storfa fomiau.



Canol isaf. Caer danddaearol wedi'i hadeiladu mewn gwrych i amddiffyn maes awyr Angle.

Gwaelod: Pencadlys y Frwydr ym Maes Awyr Tredeml. Y byncer tanddaearol hwn oedd yr amddiffyniad olaf ar y maes awyr a dim ond pan oedd y maes awyr dan ymosodiad yr oedd i fod i gael ei ddefnyddio.

## Military Aircraft Crash Sites

Crash sites are a reminder of the high price paid by many aircrews during twentieth-century conflicts. The large number of such sites in Wales attests the high level of airborne activity, particularly during WW2. Crash sites are important as they may be war graves, they act as a focus for remembrance, and they may contain the remains of rare aircraft.

The Trust will carry out a project on military crash sites during 2012-13, focusing on sites that may have physical remains of aircraft. **You can help.** If you are aware of an aircraft crash site or have information on a crash site then contact Alice Pyper by email at [a.pyper@dyfedarchaeology.org.uk](mailto:a.pyper@dyfedarchaeology.org.uk) or phone 01558 825993.

## Safleoedd Gwrthdrawiadau Awyrennau Milwrol

Mae safleoedd gwrthdrawiadau yn ein hatgoffa o'r pris mawr a dalwyd gan lawer o griwiau awyr yn ystod rhyfeloedd yr ugeinfed ganrif. Mae nifer fawr y safleoedd hyn yng Nghymru yn dyst i'r lefel uchel o weithgarwch o'r awyr, yn enwedig yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae safleoedd gwrthdrawiadau'n bwysig gan y gallant fod yn feddau rhyfel, maent yn ffocws ar gyfer coffáu a gallant gynnwys olion awyrennau prin.

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn cynnal prosiect ar safleoedd gwrthdrawiadau milwrol yn ystod 2012-13, gan ganolbwyntio ar safleoedd a all fod ag olion ffisegol awyrennau. **Gallwch chi helpu.** Os ydych yn ymwybodol o safle gwrthdrawiad awyren neu os oes gennych wybodaeth am safle gwrthdrawiad, cysylltwch ag Alice Pyper trwy anfon neges e-bost at [a.pyper@dyfedarchaeology.org.uk](mailto:a.pyper@dyfedarchaeology.org.uk) neu ffoniwch 01558 825993.

## World War One

2014 is the centenary of the outbreak of WW1. Different organisations, groups and individuals will commemorate this in a variety of ways, but it will be the hundredth anniversary of the cessation of hostilities in 2018 that will be the time for celebration. In preparation for this centenary the Trust is starting to gather information on what survives of the physical remains of that tragic conflict in southwest Wales. These may consist of practice trenches and camps built during the war, or war memorials and village halls erected after the conflict. If you are interested in helping in identifying and recording the remains of this conflict then contact Alice Pyper by email at [a.pyper@dyfedarchaeology.org.uk](mailto:a.pyper@dyfedarchaeology.org.uk) or phone 01558 825993.

## Y Rhyfel Byd Cyntaf

2014 yw canmlwyddiant dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd sefydliadau, grwpiau ac unigolion gwahanol yn coffáu hyn mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd, ond canmlwyddiant diwedd y rhyfel yn 2018 fydd yr adeg i ddathlu. Er mwyn paratoi ar gyfer y canmlwyddiant hwn, mae'r Ymddiriedolaeth yn dechrau casglu gwybodaeth am yr hyn sy'n weddill o olion ffisegol y gwrthdaro trasig hwnnw yn ne-orllewin Cymru. Gall hyn gynnwys ffosydd a gwerysilloedd ymarfer a adeiladwyd yn ystod y rhyfel, neu gofebion rhyfel a neuaddau pentref a adeiladwyd ar ôl y gwrthdaro. Os oes gennych ddiddordeb mewn helpu i ganfod a chofnodi olion y rhyfel hwn, cysylltwch ag Alice Pyper trwy anfon neges e-bost at [a.pyper@dyfedarchaeology.org.uk](mailto:a.pyper@dyfedarchaeology.org.uk) neu ffoniwch 01558 825993.

## OPEN DAY

### Help us discover the story of the Lime Industry of the Black Mountain!

CALCH is a new project aiming to record, conserve and celebrate the Lime Industry of Herbert's Quarry and the Black Mountain. By bringing together volunteers, communities and specialists, CALCH intends to showcase Herbert's Quarry as a landmark of our Industrial Heritage.

### Help us discover the story

If you are interested in history and research or have information or stories about Herbert's Quarry, then come to our **Open Day** at the **Dyfed Archaeological Trust**.

This event will take place on:

**Thursday April 12th 2012**

**10am to 4pm**

The Dyfed Archaeological Trust, The Shire Hall, Carmarthen Street,  
Llandeilo SA19 6AF

For more information about this event or to find out more about the project please contact **Menna Bell** on **01558 825997** or email **m.bell@dyfedarchaeology.org.uk**

## DIWRNOD AGORED!

### Helpwch ni ddarganfod stori y Diwydiant Calch ar Y Mynydd Du!

Mae CALCH yn prosiect newydd a'r bwriad yw cofnod a chofio y Diwydiant Calch a Chwarel Herbert ar y Mynydd Du. Drwy ymuno chymunedau, gwirfoddolwyr ac arbennigwr, mae CALCH yn gobeithio dangos Chwarel Herbert fel rhan bwysig o'n treftadaeth ddiwydiannol.

Helpwch ni i ddarganfod y stori.

Oes gennych ddiddoreb mewn hanes neu oes gennych wybodaeth neu storau am Chwarel Herbert, dewch i'n **Diwrnod Agored Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed**.

Bydd hyn yn digwydd ar

**Dydd Iau, 12<sup>ed</sup> o Ebrill, 2012**

**10 o'clock y.b. hyd 4 o'clock y.p.**

Yn Yr Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, Neuadd Y Sir, Stryd Caerfyrddin,  
Llandeilo SA19 6AF

Am fwy wybodaeth am y digwiddiad hyn neu i ddarganfod mwy am y prosiect, cyslltwch gyda **Menna Bell** ar **01558 825997** neu ebost **m.bell@dyfedarchaeology.org.uk**